CYNGOR CYMDEITHAS LLANGOEDMOR COMMUNITY COUNCIL

# Cofnodion cyfarfod o Gyngor Cymuned Llangoedmor a gynhaliwyd yn yr Hen Ysgoldy, Llangoedmor nos Lun, 7 Mawrth 2016

Presennol: Cadeirydd: Cyng Mrs Amanda Edwards. Cyngr K Symmons, Iwan Davies, Colin Lewis, Gareth Evans, Mrs J Hawkes a Bryan Rees

Ymunodd y Cyng Sirol Haydn Lewis â'r cyfarfod fel y nodir yn y cofnodion.

Aelodau'r cyhoedd: 4

**1. Croeso ac Ymddiheuriadau**
Croesawyd Mr a Mrs Hickin a'u hymgynghorydd cynllunio gan y Cadeirydd i siarad am eu cais am annedd fforddadwy. Croesawyd hefyd Mr H Davies, a oedd â diddordeb yn y swydd wag ar y Cyngor. Roedd y Cyng P Hazzelby wedi ymddiheuro.

**2. Gweddi Agoriadol**
Gwahoddwyd Mr Hickin gan y Cadeirydd i siarad â'r cyfarfod. Dywedodd Mr Hickin wrth y Cyngor ei fod yn deall bod ei gais newydd ei ddilysu gan Gyngor Sir Ceredigion a bod y Cyngor Cymuned eto i gael copi. Dywedodd ei fod ef a'i deulu wedi eu magu yn yr ardal a'i fod nawr yn gobeithio gallu codi annedd fforddadwy ar dir roedd ei rieni'n barod i'w roi iddo ef a'i wraig. Gobeithiai, pe bae'n cael codi annedd ar y llain a fwriedid, y gallai helpu ei rieni gyda'u tyddyn a darparu cartref yn lleol i'w 3 merch. Dywedodd Ymgynghorydd Cynllunio Mr Hickin fod y cynnig wedi'i gysylltu'n dda â grŵp bach o anheddau, a gallai fodloni gofynion polisi'r Cynllun Datblygu Lleol. Nodwyd na fyddai'r Cyngor Cymuned, tan iddo gael hysbysiad ffurfiol am y cais, yn gwneud dim sylw.

**3. Datgelu Buddiannau Personol**
Datgelodd y Cyng I Davies fuddiant mewn unrhyw drafodaeth yn ymwneud â gliniadur newydd, gan ei fod yn cael ei gyflogi gan un o'r cwmniau dyfynbris a Gŵyl Fawr Aberteifi a CFFI Ceredigion.

**4. Materion Personol**
Croesawyd y Cyng J Hawkes yn ôl gan y Cadeirydd yn dilyn ei salwch. Dywedodd y Cyng Hawkes wrth y Cyngor na fyddai mewn sefyllfa i ddilyn y drefn arferol o gymryd y Gadair ym mis Mai fel Is-gadeirydd, a hynny oherwydd galwadau gwaith.

**5. Ceisiadau Cynllunio**
Nid oedd dim ceisiadau cynllunio wedi dod i law.

Cytunwyd, gan nad oedd hysbysiad ffurfiol wedi'i wneud am gais Mr a Mrs J Hickin, na fyddai unrhyw sylw'n cael ei wneud.

**6. Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol**
Cynigiodd y Cyng B Rees y dylid derbyn cofnodion 01.02.16 fel cofnod cywir. Eiliwyd gan y Cyng Colin Lewis a chytunwyd yn unfrydol.

**7. Materion yn Codi**
Lle nad ydynt wedi'u cynnwys dan bennawd yr yr Agenda.

Gofynnwyd a oedd unrhyw gamau pellach wedi'u cymryd ynglŷn â llwybr rhwng y neuadd a'r siop sglodion. Cytunwyd y byddai'r Clerc yn trefnu chwilio yn y Gofrestr Tir i sefydlu pwy oedd perchennog y parc ceir a'r mynediad.
GWEITHREDU: Chwilio yn y Gofrestr Tir GAN: Y Clerc

Gofynnodd y Cyng C Lewis i'r Clerc baratoi adroddiad ar ddefnyddio dŵr yn y toiledau cyhoeddus yn ôl y metr ciwbig yn ogystal â'r gost.

Dywedwyd bod presenoldeb da yn y 'Diwrnod Hanes' a diolchwyd i'r Cyngr a'r Clerc am eu cyfraniad. Byddai'r ysgol yn cael diolch am gael defnyddio'r neuadd.

Dywedodd y Cyng B Rees nad oedd hyd yma wedi tocio'r coed ifanc yn yr Eglwys, ond roedd wedi edrych ar y coed wrth adeilad y Mileniwm ac roedd y cyfan yn blaguro ac i'w gweld yn iachus.

Dywedodd y Clerc bod Tai Ceredigion wedi cysylltu â hi ynglŷn â gosod banciau poteli ar eu tir. Cytunwyd bod y banciau poteli wedi bod ar y tir er pan oedd yn eiddo i Gyngor Sir Ceredigion, ac wedi parhau yno pan drosglwyddwyd y tir i Tai Ceredigion. Nodwyd bod busnes o Aberteifi yn dod â'i boteli gwag i'r banc poteli, a hynny'n rhan o'r broblem fod y banciau o hyd yn llawn.
GWEITHREDU: Cysylltu ag Adran Iechyd yr Amgylchedd a Tai Ceredigion GAN: Y Clerc

***8.*** **Cyllid a Gweinyddu**

*Awdurdodi Talu Biliau*

| | | *Am* | *rhif siec* | *cyfanswm banc* | *Taw* | *Net* |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Wedi'i ddwyn ymlaen | | | | |
| 07/03/2016 | Abacus | Glanhau'r Toiledau | | 170.00 | | 170.00 |
| | Abacus | Glanhau'r gysgodfan bysiau | | 76.00 | | 76.00 |
| | S Houghton | Cyflog Chwe | AS | 249.34 | | 249.34 |
| | telemat | Gwe-letya | | 120.00 | 20.00 | 100.00 |
| | telemat | Gwaith ar y gliniadur | | 66.00 | 11.00 | 55.00 |
| | SWALEC | Trydan i'r Goleuadau Nadolig | | 87.71 | 4.18 | 83.53 |
| | Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth | | | 35.00 | | 35.00 |
| | HMRC | Treth S Houghton Chwe | | 62.20 | | 62.20 |
| | S Houghton | Swyddfa Gartref Chwe | | 25.00 | | 25.00 |
| | S Houghton | Tr: postio, teithio i Abertawe | | 32.31 | | 32.31 |
| | | | | 923.56 | 35.18 | 888.38 |

Nodwyd bod angen i'r Cyngor gael ei gofrestru gyda'r Comisiynydd Gwybodaeth – Diogelu Data

Cynigiwyd: Cyng B Rees, eiliwyd Cyng J Hawkes, cytunwyd yn unfrydol

I

*Ymunodd y Cyng Sirol H Lewis â'r cyfarfod*

*Taliadau i Aelodau o Gynghorau Tref a Chymuned*

Roedd manylion wedi'u cylchredeg i bawb cyn y cyfarfod. Cadarnhaodd y Clerc y byddai'r Cyngor yn ad-dalu cost colled bersonol, a hefyd yn ystyried talu lwfansau gofal fel y cytunwyd fel rhan o'r broses o osod y gyllideb.

*Rhoddion*

*Datgelodd y Cyng B Rees fuddiant personol fel Llywodraethwr Ysgol.*

Yn dilyn trafodaeth cytunwyd i roi rhoddion i'r canlynol:

Ysgol Llechryd: 750
Gŵyl Fawr Aberteifi: 300
Cruse Ceredigion: 100
CAB: 100

*Archwiliad*

Byddai'r Clerc yn cysylltu ag arolygydd mewnol y Cyngor yn barod ar gyfer diwedd y flwyddyn.
Byddai'r Clerc yn cylchredeg y rhestr Asesiad Risg Ariannol erbyn cyfarfod mis Ebrill.

Byddai'r Clerc yn cylchredeg cod ymddygiad wedi'i ddiwygio i'w fabwysiadu cyn cyfarfod mis Ebrill (rhaid mabwysiadu hwn cyn pen 6 mis ar ôl 1 Ebrill 2016).

*Contract torri porfa*

Roedd copiau o ddyfynbrisiau wedi'u cylchredeg. Nodwyd bod y mwyafrif o'r contractwyr wedi mynegi pryder am y drefn dorri o 3 wythnos gan eu bod yn teimlo na ellid cael toriad da. Cytunwyd y byddai'r Cyngor yn ystyried hyn yng nghontract 17/18. Ar ôl trafod cytunwyd i gael geirdaon ar gyfer Mr Owens, ac

os byddai'r rheiny'n dda byddai'n cael cynnig contract 2016. Byddai'r Cadeirydd, yr Is-gadeirydd a'r Clerc yn adolygu'r geirdaon maes o law ac yn gwneud y penodiad os byddai'n briodol.

*Gadawodd y Cyng Sirol H Lewis y cyfarfod*

*Yswiriant*

Y Clerc a'r Cadeirydd i gyfarfod i fynd drwy hyn gan ei fod yn gymhleth.

*Archifau'r Sir*

OVW wedi cadarnhau, os byddai unrhyw rai o'r cofnodion yn cael eu hystyried yn gyfrinachol yn unol â Deddf Diogelu Data, y gallai'r Archifydd gadw'r ddogfen "yn gaeedig" – gan olygu na fyddai'r cyhoedd yn gallu cael mynediad i'r cofnodion am gyfnod penodol wedi'i gytuno gyda'r Cyngor (mae unrhyw beth hyd at 100 mlynedd yn arferol). Ni ellid gwneud hyn gyda rhan neu rannau o ddogfen yn ogystal â dogfennau cyfan, ond er mwyn cyfleustra mae'n arferol i ddogfennau cyfan gael eu cadw'n gaeedig.

*Contract y Clerc*

Roedd y Pwyllgor Dibenion Cyffredinol wedi cyfarfod ac wedi mynd drwy'r Contract a'r Disgrifiad Swydd. Cytunodd y Cyngor i dderbyn yr argymhellion, a chyflwynwyd y ddau beth i'r Clerc i roi ei sylwadau.

Mynegodd y Clerc ei phryder fod cylch gwaith y Pwyllgor Dibenion Cyffredinol, er nad oedd yn anghyfreithlon, yn eang iawn. Teimlai y gallai cael pwyllgor a allai ymgymryd ag unrhyw un o swyddogaethau'r Cyngor (ac eithrio gosod presept y Cyngor, gan fod hynny'n cael ei bennu gan y gyfraith) gael ei gamddehongli, ac nid oedd yn arfer da. Ar ôl ychydig drafod cytunwyd i drafod y mater ymhellach yng nghyfarfod mis Ebrill.
GWEITHREDU: Eitem ar agenda mis Ebrill GAN: y Clerc

*Cais y Clerc am wyliau*

Nodwyd

*Gliniadur*

Roedd nifer o ddyfynbrisiau wedi cyrraedd gan gwmniau lleol ac ar-lein. Roedd y wybodaeth sylfaenol a oedd yn ofynnol i fodloni'r gofynion cyfreithiol wedi'u hychwanegu. Cytunwyd i gychredeg y manylion i'r ymgynghori â'r cyhoedd, ac ati).

**9. Priffyrdd a Hawliau Tramwy Cyhoeddus**

Llifogydd – Lôn y Ladi ar y tro cyn y Capel. Nid oedd dim ymateb hyd yma oddi wrth CSC. Gofynnwyd i'r Cyng Sirol H Lewis sut i holi ynglŷn â hyn a pha gynigion, os o gwbl, a allai fod i leddfu'r llifogydd wrth adeilad Cardi Builders.

Llifogydd - Glannau. Roedd Mrs Hanford wedi cysylltu i ddweud bod y gatiau llifogydd drwy ddilyn cyngor Cyfoeth Naturiol Cymru wedi gweithio, ond roedd lefel y dŵr yn ddigon uchel iddo ddod i fyny drwy'r lloriau a thrwy furiau'r tŷ wrth ymyl y lôn i Tŷ Twt ac Old Church Cottage. Dyna oedd y tro cyntaf mewn 10 mlynedd i'r adeiladau orlifo. Roedd i gysylltu â Chyfoeth Naturiol Cymru a byddai'n dod ag adroddiad yn ôl i'r Cyngor. Diolchodd i'r Cyngor am eu gofal.

2013 Deddf Teithio Byw
Cytunwyd i holi Cyngor Sir Ceredigion unwaith yn rhagor ynglŷn â darparu palmentydd o Lechryd i Aberteifi a thrwy'r pentref.
GWEITHREDU: Cysylltu â CSC GAN: yClerc

**10. Amwynderau**

Elusen

Roedd y Clerc wedi cael cyngor cychwynnol gan OVW. Roedd yn ymddangos y dylai'r elusen gael ei rhedeg ar wahân i'r Cyngor a chael cyfrifon etc ar wahân. Roedd y Clerc ar hyn o bryd yn gweithio gyda Mr Paul Egan o OVW i sicrhau sut y gallai'r sefyllfa bresennol gael ei datrys er mwyn bodloni gofynion cyfreithiol y Cyngor a'r Comisiwn Elusennau.

Man chwarae

Gan fod y dydd yn ymestyn, byddai'r Clerc yn trefnu dyddiad i gwrdd â Mr E Rees (a chylchredeg hynny i bawb) i gael cyngor am archwilio mannau chwarae.

Goleuadau'r Nadolig

Roedd Mr Penny wedi dweud y byddai angen adnewyddu'r cysylltiad wrth yr Eglwys. Gofynnwyd pa gysylltiad oedd hwnnw.
GWEITHREDU: Cysylltu â Mr Penny GAN: y Clerc

**11. Prosiectau'n Parhau**

*SLt Lawrence* – dim ymateb eto i'r llythyr. Ymddiheurodd y Clerc nad oedd hyd yma wedi ceisio cael rhif ffôn ar gyfer perthynas SLt Lawrence.

*Mr Leigh – Mainc* – gwybodaeth wedi'i hanfon am seiri coed a chrefftwyr lleol. Dim ymateb wedi bod hyd yma.

*Cofeb Rhyfel* – Cyng B Rees
Yn dilyn trafodaeth cytunwyd i ofyn i'r Cyng B Rees fynd ymlaen i archebu'r plac. Cytunwyd y dylai'r geiriau Cymraeg ddod yn gyntaf yn y cynllun gan ychwanegu rhywfaint o liw, hwyrach patrymau daffodil.
GWEITHREDU: Archebu'r plac GAN: y Cyng B Rees

*Diffribileiddiwr* – Cadeirydd
Roedd rhywfaint o bryder o hyd bod angen cod i allu agor y cwpwrdd, ac ar y cyfan teimlid nad oedd yn hawdd iawn i ddefnyddwyr. Cytunwyd i ymchwilio i gost darparu blwch nad oedd angen cod ar ei gyfer.
GWEITHREDU: Cost blwch GAN: y Cadeirydd a'r Clerc

*Cynllunio Mewn Argyfwng* – Cyng J Hawkes
Dywedodd y Cyng Mrs Hawkes bod y cynlluniau amlinellol ar gael ganddi a bod angen ychwanegu gwybodaeth leol.

*Gwylio Cyflymder* – Cyng C Lewis
Byddai'r Cyngr C Lewis yn rhoi'r sefyllfa ddiweddaraf gynted ag y byddai gwybodaeth newydd ar gael.

**12. Digwyddiadau**

Cinio Blynyddol – Cytunwyd i gynnal y cinio ar 22 Ebrill 2016 am 7 ar gyfer 7.30pm yn y Saith Seren. Y gwesteion fyddai'r Cyng Sirol a'i wraig.
GWEITHREDU: Trefniadau i gael eu gwneud GAN: y Cadeirydd

Marathon lluniau pentrefi posib gyda'r ysgol / neuadd?
Cytunwyd y byddai'r Cyng B Rees, y Cadeirydd a'r Clerc yn trafod y cynnig gyda'r ysgol.
GWEITHREDU: Siarad â'r ysgol GAN: y Cyng B Rees

Llechryd/Llangoedmor yn ei Blodau
Cytunwyd i gael cost tybiau wrth y mynedfeydd i'r pentref.
GWEITHREDU: Cael cost tybiau GAN: y Clerc

**13. Adroddiadau Cyfarfodydd**

*Y Clerc – Drafft Bil Llywodraeth Leol (Cymru)*
Nodwyd adroddiad y Clerc fod nifer da iawn wedi dod i'r cyfarfod.

**14. Gohebiaeth a Gohebiaeth e-bost**

*I'W NODI*:
Egwyddorion Gweinyddiaeth Dda a Rheoli Cofnodion yn Dda

OVW Trosglwyddo Asedau

OVW AROLWG 2018 O ETHOLAETHAU SENEDDOL

OVW Swyddogol : Cyfle Penodiadau Cyhoeddus – British Council/Cyngor Prydeinig - Cadeirydd, Pwyllgor Cynghori Cymru

OVW Cylchlythyr Chwefror Cynnal Cymru

CSC – Pwyllgor Reoli Datblygiad Ion/Chwe 16

Cylchgrawn Clerks and Councils Direct

Catalogau Glasdon

*I WEITHREDU:*
Gwahoddiad i brynu medalau i nodi pen-blwydd E M y Frenhines Elizabeth II yn 90 oed.
Er bod cytundeb yn gallai fod yn bosibl nodi'r digwyddiad, nid ystyriwyd bod medalau'n addas.

Cyngor Tref Aberteifi
Enwebwyd y Cyng I Davis i gynrychioli'r Cyngor yn y cyfarfod ar 15 Mawrth 2016 i drafod cynnig Cyngor Tref Aberteifi i wahodd yr Eisteddfod Genedlaethol i'r ardal yn 2020.
GWEITHREDU: Cysylltu â Chyngor Tref Aberteifi GAN: y Clerc

OVW Cadarnhau adnewyddu aelodaeth. Cytunodd y Cadeirydd a'r Cyng J Hawkes i gael eu henwebu i fynd i'r Cyfarfodydd Pwyllgorau Ardal chwarterol.
GWEITHREDU: Cadarnhad i OVW GAN: y Clerc

Ymgynghori:
PROSES YMGYNGHORI – ADOLYGIAD O GLUDIANT ANGHENION ADDYSG YCHWANEGOL
Cytunwyd bod gallu cael cludiant am ddim yn hanfodol.
GWEITHREDU: Ymateb i'r ymgynghori GAN: y Clerc

**15. Cyfnewid gwybodaeth**

Mynegodd y Cyng K Symmons ei ofid o fod wedi clywed bod bwlio yn digwydd ym Maesyderi.

Mynegodd y Cadeirydd ei gofid fod y mur gyferbyn â Cilgerran TVs mewn cyflwr peryglus.

Tynnodd y Cyng K Symmons sylw at yr hollt yn y mur gyferbyn â'r Saith Seren. Cytunwyd i ddarparu ffotograffau a manylion am yr union leoliad i'r Clerc.

**16. Dyddiad y cyfarfod nesaf – 4.04.16 - 7.00pm**

Os bydd unrhyw faterion cyfrinachol yn codi, bydd y Cyngor yn gwneud y penderfyniad canlynol a gofynnir i'r cyhoedd a'r wasg adael y cyfarfod bryd hynny: *Penderfyniad: Oherwydd natur gyfrinachol y busnes sydd i'w drafod, caiff y cyhoedd a'r wasg eu hepgor o'r cyfarfod yn unol â Deddf Cyrff Cyhoeddus (Mynediad i Gyfarfodydd) 1960 Adran 1.*

*Gan nad oedd unrhyw fusnes pellach, daeth y cyfarfod i ben am 9.45pm*